

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Taflen Ffeithiau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Newid Hinsawdd



Y cefndir

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno dull o reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yng Nghymru, gan helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt. Mae hyn yn cynnwys cryfhau iechyd ein hadnoddau naturiol er mwyn lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd arnynt, ystyried y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan adnoddau naturiol a nodi cyfleoedd i ddarparu twf gwyrdd. Mae'r dull newydd hwn hefyd yn golygu bod modd ystyried cydnerthedd ecosystemau fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer gweithgareddau o'r cychwyn cyntaf.

Targed Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2050

Er mwyn sicrhau bod Cymru yn cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod cyfrif allyriadau net Cymru yn 2050 o leiaf 80% yn is na'r gwaelodlin.

Targedau dros dro

Bydd targedau allyriadau dros dro yn cael eu pennu ar gyfer 2020, 2030 a 2040 a byddan nhw wedi cael eu cyflwyno erbyn diwedd 2018. Bydd y targedau dros dro hyn yn helpu i werthuso'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at darged hirdymor 2050.

Cyllidebau carbon

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu cyllidebau carbon bob 5 mlynedd sy'n pennu'r cyfyngiadau ar gyfanswm yr allyriadau yng Nghymru. Mae cyllidebau carbon wedi'u pennu ar gyfer cyfnodau penodedig, a elwir yn gyfnodau cyllidebu.

Bydd y cyfnod cyllidebu cyntaf yn cwmpasu 2016-2020, a phennir cyfnodau bob pum mlynedd wedyn hyd at 2050. Pennir pob cyllideb garbon ymlaen llaw, gyda'r gyllideb garbon gyntaf a'r ail gyllideb garbon yn cael eu pennu cyn diwedd 2018 a'r drydedd erbyn diwedd 2020.

Ar gyfer pob cyfnod cyllidebu, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiad sy'n cyflwyno eu cynigion a'u polisiau ar fodloni'r gyllideb garbon yn y cyfnod hwnnw.

Mae'n rhaid i gyllidebau carbon gydymffurfio â'r targedau dros dro sydd yn eu harwain at darged 2050.

Cynnydd

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad terfynol yn dilyn pob cyfnod cyllidebu a tharged, yn amlinellu a ydyn nhw wedi bodloni'r gyllideb neu'r targed. Bydd yn rhaid i hyn gael ei wneud o fewn 2 flynedd o'r cyfnod cyllidebu neu'r flwyddyn darged dros dro. Mae'n rhaid cyflwyno pob datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ym mhob datganiad terfynol ar gyfer y gyllideb carbon, bydd Gweinidogion Cymru'n cynnwys amcangyfrif o'r allyriadau yn sgil treuliant a defnydd o nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru.

Llywodraethu – corff cyngori

Wrth i wyddoniaeth yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd esblygu ac wrth i fwy o wybodaeth ddod i'r amlwg, mae'r Ddeddf yn darparu hyblygrwydd i sicrhau bod y targedau a'r cyllidebau carbon yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid targedau a chyllidebau carbon mewn ymateb i dystiolaeth wyddonol newydd neu ddatblygiadau Ewropeaidd a Rhyngwladol. Cyn pennu neu newid targedau dros dro neu gyllidebau carbon, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gael cyngor gan gorff cyngori. Hefyd, mae'n rhaid i'r corff gyngori ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn cysylltiad â phob cyllideb a tharged carbon.

Yr amserlen

Daeth y Ddeddf yn gyfraith ym mis Mawrth 2016, gyda holl ddarpariaethau'r Ddeddf o ran newid hinsawdd yn cael effaith ddau fis wedyn.

Bydd y targedau ar gyfer 2020, 2030 a 2040 a'r ddwy gyllideb garbon cyntaf ar gyfer y cyfnodau 2016–2020 a 2021–2025 yn cael eu pennu cyn diwedd 2018.

Bydd gweddill y cyfnodau cyllidebol yn cael eu pennu o leiaf 5 mlynedd cyn dechrau'r cyfnod cyllidebol perthnasol.

Rhagor o wybodaeth

Gallwch ddarllen rhagor am y Ddeddf ei hun ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.llyw.cymru/deddfyramgylchedd

Gallwch hefyd danysgrifio i gael ein e-fwletin misol drwy anfon e-bost at:

NRBulletin@cymru.gsi.gov.uk